

## Canllawiau ar gyfer Gwyddor Gofal Iechyd – Rhaglen Hyfforddiant Gwyddonwyr (STP)

---



**Medi 2020**

---

# Cynnwys

---

Tuddalen 3	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cyflwyniad</li><li>• Cyllid</li></ul>
Tuddalen 5	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cofrestriad</li><li>• Absenoldeb oherwydd Salwch</li></ul>
Tuddalen 6	<ul style="list-style-type: none"><li>• Absenoldeb Mamolaeth/Tadolaeth</li><li>• Gwyliau Blynyddol</li><li>• Proses Recriwtio</li></ul>
Tuddalen 7	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diogelu Data</li><li>• Manylion cyswllt</li></ul>
Tuddalen 8	<ul style="list-style-type: none"><li>• Atodiad 1</li></ul>
Tuddalen 10	<ul style="list-style-type: none"><li>• Atodiad 2</li></ul>
Tuddalen 12	<ul style="list-style-type: none"><li>• Atodiad 3</li></ul>
Tuddalen 13	<ul style="list-style-type: none"><li>• Atodiad 4</li></ul>

---



---

## Canllawiau Rhaglen Hyfforddiant Gwyddonwyr (STP)

---

### Cyflwyniad

Mae Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) yn gyfrifol am addysg a hyfforddiant i ddiwallu anghenion y GIG yng Nghymru. Mae'r nodiadau a ganlyn yn rhoi eglurhad o'r trefniadau manwl sydd ar gyfer cyllido hyfforddiant STP ar sail Cymru gyfan.

Mae'r STP yn rhaglen hyfforddiant mynediad i raddedigion sy'n arwain at rolau gwyddonol uwch, a chofrestriad gyda'r HCPC. Bydd hyfforddeion STP yn cael eu cyflogi gan un o sefydliadau'r GIG drwy gydol eu hyfforddiant ac yn ennill tâl.

Mae'r STP yn rhaglen hyfforddiant llawnamser, tair blynedd sy'n cynnwys dysgu seiliedig ar waith a dysgu academaidd sy'n cynnwys gradd meistr mewn maes dewisiedig, sydd wedi'i chomisiynu'n benodol a'i hachredu. Byddir yn ymgymryd â hyfforddiant yn y gweithle mewn amrywiaeth o leoliadau yn ystod y flwyddyn gyntaf, cyn arbenigo yn nwy flynedd olaf yr hyfforddiant.

Gellir cynnig swyddi STP naill ai ar sail mynediad uniongyrchol neu ar gyfer ymgeiswyr mewn swydd.

**Ymgeiswyr mynediad uniongyrchol** yw'r ymgeiswyr hynny sy'n ymuno â'r rhaglen hyfforddiant nad ydynt yn ddeiliaid contract (au) cyflogaeth parhaol o fewn y GIG. Cynigir contract cyfnod penodol o dair blynedd i hyfforddeion gyda'u sefydliad lletyol.

**Ymgeiswyr mewn swydd** yw'r ymgeiswyr hynny sy'n ddeiliaid contract (au) cyflogaeth parhaol ym maes yr arbenigedd y maent yn ymgeisio amdano. Bydd hyfforddeion yn cael eu cyflogi ac yn derbyn tâl gan eu cyflogwr drwy ystod y rhaglen.

### Cyllid

Bydd AaGIC yn darparu'r gefnogaeth ariannol ganlynol i hyfforddeion sy'n ymroi i hyfforddiant STP:

- Cyflog cychwynnol yn gyflin â phwynt graddfa isaf Band 6 yr Agenda ar gyfer Newid, (dyfernir codiadau cynyddrannol blynyddol os yn gymwys);
- Ffioedd dysgu'r Brifysgol;
- Costau llety a/neu dreuliau teithio yn sgil mynychu Sefydliad Addysg Uwch (SAU) ar gyfer astudiaethau academaidd yn unol â Thelerau ac Amodau'r Agenda ar gyfer Newid.

*Sylwch, pan fo angen llety i fynychu bloc o astudiaeth academaidd, bydd taith ddwyffordd yn cael ei hariannu o fan cychwyn y myfyrwyr i'r llety (ar ddechrau'r bloc astudiaeth academaidd), ac yn ôl i fan cychwyn y myfyrwyr (ar ddiwedd y bloc). Os bydd hyfforddeion yn dewis dychwelyd i'w man cychwyn/cartrefi yn ystod bloc astudiaeth academaidd, bydd rhaid iddynt ysgwyddo'r costau eu hunain.*

- Costau llety a/neu dreuliau teithio yn sgil mynychu lleoliadau clinigol lle nad yw'r maes ymarfer yn cael ei ymgymryd ag o gan y BILL/ Ymddiriedolaeth. Nid yw AaGIC yn cyllido costau llety a/neu dreuliau teithio ar gyfer hyfforddeion pan ar leoliad gyda'r BILL/Ymddiriedolaeth letyol.
- Gall hyfforddeion wneud cais am gyllid ychwanegol hyd at gyfanswm o £2000 y pen dros rediad y rhaglen tair blynedd—ar gyfer ymgymriad lleoliadau clinigol y tu allan i Gymru, lle nad yw'n bosibl cyflawni cymwyseddau drwy ymgymryd â lleoliadau clinigol yng Nghymru.

Ni ellir defnyddio'r cyllid ychwanegol hwn er budd mynychu cynadleddau neu weithdai; unig ffocws yr arian hwn yw cefnogi'r gwaith o gyflawni a phrofi deilliannau sy'n seiliedig ar ymarfer. Bydd yn ofynnol i hyfforddeion sy'n gofyn am nawdd ychwanegol ddangos/profi sut y bydd y profiad dysgu ychwanegol yn eu galluogi i gyflawni'r cymwyseddau angenrheidiol.

Dylai hyfforddeion lenwi'r Ffurflen Gais am Gyllid STP Ychwanegol (Atodiad 1) i ddangos/profi sut y bydd yr hyfforddiant ychwanegol yn eu helpu i gyflawni'r cymwyseddau a ddynodir.

Dylid e-bostio ffurflenni wedi'u cwblhau at [HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk](mailto:HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk), i awdurdodi cyllid ychwanegol.

Bydd y weithdrefn ganlynol yn berthnasol o ran ariannu hyfforddeion STP:

- a) Bydd y cyflogwr/sefydliad lletyol GIG Cymru yn talu cyflog i'r hyfforddai ar bwynt graddfa isaf band 6 yr Agenda ar gyfer Newid.
- b) Dylai cyflogwyr/sefydliadau lletyol geisio ad-daliad gan AaGIC ar gyfer costau hyfforddeion drwy gyflwyno anfonebau'n rheolaidd mewn perthynas â'r canlynol:
  - Cyflog yr hyfforddai ynghyd ag argostau'r cyflogwr ar hyd y cwrs tair blynedd (ac eithrio goramser ac unrhyw ychwanegiadau).
  - Treuliau teithio ar ran yr hyfforddai, yn deillio o'r lleoliad clinigol, sy'n mynd y **tu hwnt** i'r gost ddyddiol o deithio rhwng eu **cartref a swyddfa'r cyflogwr** sy'n darparu'r cwrs.

***Nodwch na fydd treuliau teithio o'r cartref i swyddfa'r cyflogwr ac oddi yno yn cael eu had-dalu, bydd yr hyfforddai'n ysgwyddo'r costau hyn.***

- Dylai hyfforddeion gyflwyno bob hawliad teithio/llety i Bennaeth Adrannol eu lleoliad i'w cymeradwyo a'u talu.
  - Mae treuliau teithio rhesymol yn daladwy o ran teithiau i leoliadau yng Nghymru ar gyfer hyfforddeion sy'n astudio yng Nghymru. Ni ddylid ad-dalu treuliau i unrhyw hyfforddai sydd, ar gais, yn ymgymryd â lleoliad y tu allan i Gymru er bod lleoliad yng Nghymru ar gael.
  - Ni fydd AaGIC yn ad-dalu taliadau ceir prydles y GIG. Os bydd unrhyw daliadau'n codi wrth ddychwelyd car prydles, cysylltwch ag adran gyllid AaGIC drwy [ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk](mailto:ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk).
  - Bydd AaGIC yn ad-dalu costau sy'n fwy na'r ffioedd parcio safonol a ysgwyddir gan hyfforddeion ar leoliadau clinigol. Fodd bynnag, os yw hyfforddai yn arferol yn gorfod talu ffioedd parcio yn ei swyddfa/canolfan gyflogaeth, dim ond ffioedd sy'n uwch na'r swm hwn fydd yn cael eu had-dalu.
- a) Dylai Cyflogwyr/sefydliadau lletyol y GIG gyflwyno Anfonebau i AaGIC yn fisol, gan gynnwys dadansoddiad o'r costau, ar gyfer ad-dalu cyflogau a chostau eraill hyfforddeion.
- b) Dylid labelu anfonebau i sylw AaGIC a'u cyflwyno i AaGIC, Tŷ Dysgu, Cefn Coed, Caerdydd CF15 7QZ neu [ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk](mailto:ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk).

## **Cofrestrïad**

### **Gwyddonwyr Biofeddygol Cofrestredig**

Mae'n **RHAID** i bob hyfforddai yn unigol gynnal ei gofrestrïad HCPC drwy gydol rhediad yr STP. Dylid rhoi trefniadau lleol ar waith i sicrhau hyn.

Mae cyd-gyfrifoldeb gan hyfforddeion a'u cyflogwr/sefydliad lletyol i sicrhau bod eu cofrestrïad HCPC yn parhau i fod yn gyfredol drwy ystod eu cwrs.

### **Absenoldeb oherwydd Salwch**

Bydd AaGIC yn ad-dalu costau ar ran y cyflogwr/sefydliad lletyol sy'n gysylltiedig ag absenoldeb hyfforddeion yn ystod cyfnod y cwrs. Mae hyfforddeion yn

gyfan gwbl gyfrifol am hysbysu'r SAU a'u lleoliad clinigol ynghylch absenoldebau oherwydd salwch, gan gadw at bolisi salwch eu cyflogwr.

Os bydd angen estyniad cyllid ar hyfforddai oherwydd absenoldeb astudio er mwyn sicrhau cyflawniad llwyddiannus, rhaid i'r hyfforddwr (nid yr hyfforddai) gyflwyno cais am gyllid estynedig i AaGIC drwy gwblhau atodiad 2 a'i ddychwelyd ynghyd â llythyr gan yr ysgol Genedlaethol yn cytuno i'r estyniad.

Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod/haeddiant. Cyfeiriwch bob cais am estyniad at [ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk](mailto:ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk).

Dylai hyfforddeion cyflogedig sydd ar gyfnod absenoldeb salwch hirdymor gadw at bolisi salwch eu sefydliad lletyol.

### **Absenoldeb Mamolaeth/Tadolaeth**

Dylai hyfforddeion gadw at bolisi Mamolaeth, Mabwysiad, Tadolaeth ac Absenoldeb Rhiant eu cyflogwr/sefydliad lletyol. Ad-delir costau cyflogwr, sy'n deillio o absenoldeb hyfforddai yn sgil absenoldeb mamolaeth, gan AaGIC ar yr amod bod cais yn cael ei gyflwyno gan y SAU.

Os oes angen estyniad hyfforddiant ar hyfforddai o ganlyniad i absenoldeb mamolaeth, dylai'r SAU ofyn yn ffurfiol am gyllid ychwanegol gan AaGIC drwy gwblhau atodiad 3 a'i ddychwelyd i AaGIC naill ai drwy'r post neu drwy e-bost.

### **Gwyliau Blynyddol**

Dylai hyfforddeion gadw at bolisi gwyliau blynyddol eu cyflogwr/sefydliad lletyol.

### **Y broses recriwtio**

Caiff swyddi eu hysbysebu'n flynyddol ar Swyddi'r GIG (*NHS Jobs*) gan AaGIC. Bydd paneli cyfweld yn cynnwys cyflogwyr GIG Cymru a fydd yn lletya'r hyfforddeion. Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd STP llwyddiannus gofrestru gyda'r Ysgol Gwyddor Gofal Iechyd Genedlaethol (NSHCS) a mynychu anwythiad STP yr NSHCS. Bydd AaGIC yn hysbysu'r NSHCS ynghylch enwau hyfforddeion GIG Cymru.

Gweler Atodiad 4 – Y Broses Recriwtio.

Bydd yr holl hyfforddeion yn agored i wiriadau cyflogaeth boddhaol dan law eu cyflogwr/sefydliad lletyol.

## Diogelu Data

Rhaid i'r holl staff y dyfernir lle iddynt gael llythyr cyllid AaGIC, a llythyr nawdd cofrestru. Mae bob aelod o staff sy'n derbyn cyllid yn cytuno i AaGIC rannu eu gwybodaeth bersonol â'r darparwr addysg y maent yn astudio dan ei awdurdod. Rhaid i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau ymgorffori hysbysiadau preifatrwydd yn eu proses ymgeisio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR.

## Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen esboniad pellach arnoch, yna e-bostiwch

[HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk](mailto:HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk) neu [ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk](mailto:ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk)



## Atodiad 1 – STP – Ffurflen Gais am Gyllid Ychwanegol

Gwybodaeth yr Hyfforddai	
Enw	
E-bost	
Rhif Cyswllt	
Adran	
Sefydliad	
Arbenigedd/ Llwybr STP	
Blwyddyn astudio	

  

Gwybodaeth Cais am Gyllid Ychwanegol	
Manylion lleoliad clinigol	
Rhesymeg dros ofyn am gyllid ychwanegol	
Cymwyseddau Ymarferol a gefnogir gan y lleoliad	
Dadansoddiad o'r cyllid ychwanegol a fynnir (llety /teithio ac ati)	£



<b>Cyfanswm y gost a geisir</b>	£
<b>Rheolwr/wyr sy'n cefnogi'r datganiad</b>	
<b>Manylion unrhyw gyllid ychwanegol a ddyfarnwyd yn flaenorol (dyddiad/manylion hyfforddiant)</b>	
<b>Enw'r Rheolwr</b>	
<b>Llofnod Rheolwr</b>	
<b>Dyddiad</b>	

At ddefnydd swyddfa yn unig

Rhif	
------	--



## Atodiad 2 – Ffurflen Gais am Estyniad Cyllid

Darparwr Addysg:

Cyflogwr:

Enw'r Hyfforddai:

Cwrs:

Dyddiad Cychwyn ar y Cwrs:

Dyddiad Dechrau'r Absenoldeb (dd/mm/bb):

Dyddiad Ailgychwyn Disgwyliedig (dd/mm/bb):

Derbyniad y Dychwelir ato (mm/bb):

Hyd yr Estyniad a Geisir:

Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau'r Cwrs:

Swm y Cyllid Ychwanegol a Geisir (£)

£

Costau Bwrsariaeth / Cyflog

£

Dibynyddion a Lwfansau Eraill

£

Gofal Plant

£

Cyfanswm

£

1. Nodwch y rheswm dros gais yr hyfforddai am estyniad.
2. Pa gamau mae'r swyddog Addysg/Hyfforddiant wedi'u cymryd i liniaru'r amgylchiadau sydd wedi arwain at geisio cyllid ychwanegol?
3. Yn achos estyniadau ar sail rhesymau academiaidd, a yw Tiwtor y Cwrs yn cadarnhau bod estyniad wedi'i ariannu yn debygol o arwain at yr hyfforddai'n cwblhau'r elfen academiaidd o'r cwrs yn llwyddiannus ar ddiwedd y cyfnod estynedig hwn?

CYWIR/ ANGHYWIR *dilëwch fel y bo'n briodol*

*Yr wyf yn datgan bod gwarantu'r cyllid cyflog ychwanegol hwn, gan gymryd i ystyriaeth lefel y gost ychwanegol a'r tebygolrwydd y bydd yr hyfforddai'n cymhwyso, yn rhoi'r gwerth gorau am arian yn fy marn i.*

**Llofnodwyd gan:**

**Dyddiad:**

**Nodwch:**

Bydd angen cyflwyno ceisiadau am Absenoldeb Mamolaeth drwy ffurflen BUR101 (MAT) Atodiad 3

A fyddechystal â dychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi at:

AaGIC Tŷ Dysgu, Cefn Coed, Caerdydd. CF15 7QQ

**E-bost:** [ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk](mailto:ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk)

***dychwelir ffurflenni os bernir bod y manylion a ddarperir yn annigonol***

## Afodiad 3 – HYSBYSIAD ABSENOLDEB MAMOLAETH

### HYFFORDDAI 1. Manylion y Cwrs

Enw'r Cwrs

Blwyddyn Academaidd

### 2. Manylion yr Hyfforddai

Enw'r Hyfforddai

### 3. Absenoldeb mamolaeth

3.1 Dyddiad dechrau'r Absenoldeb Mamolaeth

Dyddiad

3.2 Dyddiad Dychwelyd Disgwyliedig

Dyddiad

3.3 Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau'r Cwrs

Dyddiad

### 4. Awdurdodiad (i'w gwblhau gan y swyddog dynodedig yn y brifysgol/coleg)

Sylwadau:

**Yr wyf yn cadarnhau bod y manylion a ddangosir uchod, hyd eithaf fy ngwybodaeth i, yn gywir.**

Llofnod

Dyddiad

**Cyswllt Cyllid (i gadarnhau gwybodaeth am daliadau):**

Enw

Ffôn/E-bost

BUR 101 MAT

## Atodiad 4 – Y Broses Recriwtio

